

CYFARFOD:	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio
DYDDIAD:	17 Tachwedd 2015
LLEOLIAD:	Siambur y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni.
AMSER CYCHWYN:	2pm
PWNC:	Materion / Cwestiynau i Fwrdd Iechyd Prif Betsi Cadwaladr.

<u>Rhif:</u>	<u>Cwestiwn gan:</u>	<u>Cwestiwn:</u>
<u>Gwasanaethau Mamolaeth Merched a Gwasanaethau Iechyd eraill</u>		
1.	Y Cyngorydd Carwyn Jones	Yn ddiweddar mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynnal ymgynghoriad ar newidiadau dros dro i Wasanaethau Merched a Mamolaeth yng ngogledd Cymru. Mae pryder ar Ynys Môn bod y gwasanaeth mamolaeth arbenigol yn Ysbyty Gwynedd yn y fantol. Allwch chi ddarparu gwybodaeth ar sefyllfa'r Bwrdd ar hyn o bryd a beth fydd yn digwydd?
2.	Y Cyngorydd Derlwyn Hughes	Beth yw cynllun strategol tymor canol BIPBC ar gyfer y ddau safle ysbytai cymunedol (Ysbyty Penrhos – Caergybi ac Ysbyty Cefni – Llangefni) ar Ynys Môn?
<u>Pwysau Ariannol ar Wasanaethau Cyhoeddus</u>		
3.	Y Cyngorydd Derlwyn Hughes	Adroddwyd yn y wasg y rhagwelir y bydd BIPBC wedi gorwario tua £14 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2015/16, ac efallai y bydd hyd yn oed yn fwy na hynny. A fyddwch chi'n medru cynnal neu wella'r lefel bresennol o bartneriaeth gyda Chynghorau Gogledd Cymru, neu a fyddwch chi'n ceisio lleihau'r gorwariant a ragwelir trwy gwtogi mentrau ar y cyd a/ neu leihau eich cyfraniad ariannol i wasanaethau yn y gymuned y flwyddyn nesaf?
<u>Gwasanaethau i Bobl Hŷn</u>		
4.	Y Cyngorydd Derlwyn Hughes	Faint o arian mae BIPBC wedi ei wario yn y gymuned ar ofal cymdeithasol i oedolion a pha gamau y mae'n eu cymryd i gryfhau cefnogaeth gymunedol a gofal nyrsio yn y gymuned ?

<u>Rhif:</u>	<u>Cwestiwn gan:</u>	<u>Cwestiwn:</u>
<u>Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc (yn cynnwys CAHMS)</u>		
5.	Y Cyngorydd Derlwyn Hughes	Mae adroddiad AGGCC, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015, dan y teitl "Archwiliad ar Ddiogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant Mewn Gofal a rhai sy'n Gadael Gofal ac sy'n arddangos ymddygiad bregus neu beryglus" yn feirniadol o addasrwydd gwasanaethau iechyd meddwl i blant mewn gofal. Beth fu ymateb BIPBC i'r adroddiad hwn yn lleol ar yr Ynys?
6.	Y Cyngorydd Derlwyn Hughes	Cwnsela mewn ysgolion a throthwyon mynediad i wasanaethau CAMHS. Mae'n glir o'r fforymau rhanbarthol a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng swyddogion y llywodraeth, CAMHS a gwasanaethau cwnsela ysgolion bod cryn dipyn o sgôp i gysoni'r math o wasanaethau cymorth a gynigir gan CAMHS trwy'r rhanbarth a'r cymorth y gellir ei gynnig i ysgolion, athrawon a gweithwyr cefnogol eraill. Pa gynlluniau sydd gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y 'cynnig' hwn yn cael ei gysoni trwy'r rhanbarth i sicrhau mynediad a chyfleoedd cyfartal i'n pobl ifanc?
7.	Y Cyngorydd Derlwyn Hughes	Codwyd pryderon ynghlŷn â'r diffyg cyfathrebu ynghylch penderfyniadau i leoli pobl ifanc y tu allan i ardal Gogledd Cymru am driniaeth mewn ysbytai/unedau arbenigol yn Lloegr heb godi ymwybyddiaeth yr Awdurdod am y tebygolrwydd y bydd costau ychwanegol sylweddol yn deillio o hynny. Sut ellir cryfhau'r mecanwaith presennol trwy'r Panel Comisiynu ar y Cyd misol er mwyn gwella cyfathrebu rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol ?
8.	Y Cyngorydd Derlwyn Hughes	Codwyd pryderon ynghylch diffyg cysondeb o ddarpariaeth a rennir ar draws y rhanbarth mewn perthynas â gwasanaethau cefnogaeth therapi iaith a chyfathrebu i bobl ifanc yn ein hysgolion. Mae'r Cyngor yn awyddus i symud yr agenda yn ei blaen trwy sefydlu dealltwriaeth ysgrifenedig gyffredin ynghylch yr hyn ellir ei ddisgwyl o ran y lefelau ymyrraeth a'r pecynnau cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn addysg prif ffrwd, yn enwedig yn y sector uwchradd lle bu diffyg yn y ddarpariaeth yng ngogledd-orllewin Cymru. Oes gan BIPBC gynlluniau i gyflwyno protocol rhanbarthol cyffredin sy'n amlinellu'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig?
<u>CWESTIYNAU YCHWANEGOL GAN AELODAU</u>		
9.	Y Cyngorydd Carwyn Jones	Mae'r Awdurdod, trwy ei Raglen Trawsnewid ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion, yn ymroddedig i ddatblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol trwy Ynys Môn gan gefnogi gweledigaeth yr

<u>Rhif:</u>	<u>Cwestiwn gan:</u>	<u>Cwestiwn:</u>
		Awdurdod o symud i ffwrdd o ofal preswyl traddodiadol tuag at fodolau gofal amgen. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar ynglŷn â Chartref Preswyl Haulfre yn Llangoed. A ymgynghorwyd gyda BIPBC ynglŷn â dyfodol y cartref preswyl ac, os gwnaed hynny, beth yw eu barn ar y mater, megis colli capasiti gwelyau?
10.	Y Cynghorydd Dylan Rees	<p>Cynhaliwyd arolwg diweddar ymysg Meddygon Teulu Gogledd Cymru yng nghyswllt eu cydbwysedd gwaith a bywyd. Roedd yn amlwg o'r arolwg fod nifer helaeth o Feddygon Teulu yn teimlo eu bod yn gweithio gormod a dygodd rhai ohonynt sylw at fethiant y Bwrdd i leihau'r pwysau sydd arnynt. Dyma rai o'r dyfyniadau :-</p> <p>"Mae gennym ormod o bwysau a lefelau staffio rhy isel i ddarparu gofal, heb unrhyw gefnogaeth gan BIPBC, mae'r disgwyliadau'n rhy fawr."</p> <p>"Rwyf wrth fy modd yn helpu fy nghleifion ond rwy'n mynd yn fwy a mwy rhwystredig gydag anallu'r Bwrdd lechyd i ddarparu gwasanaethau gofal eilaidd digonol".</p> <p>"Rwyf dal yn mwynhau fy swydd fel Meddyg Teulu a theimlaf mai hon yw'r swydd orau yn y byd. Fodd bynnag, teimlaf fod y gwaith papur yn ein llethu. Teimlaf fod yna ddiffyg dealltwriaeth oddi wrth yr elfen gofal eilaidd a BIPBC ynghylch y pwysau sydd arnom. Mae yna ddiffyg gwelyau drwy'r adeg er mwyn gallu anfon cleifion sâl iddynt. Mae rhestri aros hir yn effeithio arnom ac mae cleifion yn dod yn ôl tro ar ôl tro tra eu bod yn aros ar y rhestri".</p> <p>O ystyried y ffaith fod y cyfryngau wedi adrodd bod Meddygfeydd Meddygon Teulu Gogledd Cymru "<i>are facing closure by the score without help</i>" beth yn union mae'r Bwrdd yn ei wneud i helpu a chefnogi meddygfeydd?</p>
11.	Y Cynghorydd Ann Griffith	<ul style="list-style-type: none"> • Rwyf wedi cael ar ddeall fod merched dros 50 oed ond yn cael eu galw am sgrinio serfigol bob 5 mlynedd ac nid bob 3 blynedd. Ydi hyn yn seiliedig ar dystiolaeth glinigol neu'r angen i arbed arian? • O ran gofal y fron a diagnosis canser, beth yw'r amser aros cyfredol i ddynes weld ymgynghorydd yn dilyn cael ei chyfeirio gan Feddyg Teulu?

<u>Rhif:</u>	<u>Cwestiwn gan:</u>	<u>Cwestiwn:</u>
12.	Y Cynghorydd Ann Griffith	<p>Yng nghyswllt Uned Seiciatryddol Hergest yn Ysbyty Gwynedd:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Faint o gwynion a dderbyniwyd gan gleifion am yr Uned yn 2015 ynghylch lefel y gofal a materion diogelwch, ac a yw data hanesyddol yn adlewyrchu unrhyw batrwm ? • A fu nifer o ddigwyddiadau o chwythu'r chwiban gan staff yn 2015, ac a yw'r data hanesyddol yn adlewyrchu unrhyw batrwm ?
13.	Y Cynghorydd Ann Griffith	<p>Deallaf fod Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM) yn drosedd yn y DU ers 1985 ond nifer isel iawn sy'n cael eu herlyn yn y DU.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw BIPBC yn darparu fframwaith hyfforddi i'w staff er mwyn eu cynorthwyo i adnabod achosion o FGM ? • Ar Ynys Môn, sawl achos o FGM y mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd arnynt i Heddlu Gogledd Cymru ?
14.	Y Cynghorydd Ann Griffith	A yw BIPBC yn gwybod beth yw graddau camddefnyddio cyffuriau ar Ynys Môn a faint o bobl ar yr Ynys sy'n derbyn lleoliad adsefydlu preswyl ar gyfer eu problem?
15.	Y Cynghorydd Ann Griffith	Beth yw'r amser aros cyfartalog am therapiau siarad ar Ynys Môn? (Mae therapiau siarad yn cyfeirio at yr help a gynnigir gan y Bwrdd Iechyd i bobl sy'n dioddef o iselder neu broblemau sy'n gysylltiedig â phryder dwys).